S4/C

Papur Ymgynghorol Awdurdod S4C
14 Mai 2007
Cynigion ar gyfer darpariaeth sianel deledu Gymraeg i blant yn y dyfodol.

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

CYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD

Awdurdod S4C yw'r corff annibynnol a benodwyd gan y Senedd i archwilio a bod yn atebol am yr arian cyhoeddus a roddir i S4C er mwyn darparu gwasanaethau teledu Cymraeg. Rydym yn dymuno cael barn cyhoedd a rhanddalwyr allweddol ynghylch cynigion i lansio sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus Gymraeg newydd i blant ledled Cymru a thu hwnt.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod plant wedi newid y ffordd y maent yn manteisio ar y cyfryngau clyweledol mewn ffordd ddramatig, ond efallai nad yw darpariaeth teledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg wedi ymateb i'r newidiadau hynny mewn ffordd ddigonol. Er bod gennym gynulleidfa deyrngar a chynulleidfa a werthfawrogir ar hyn o bryd, nid S4C yw'r dewis naturiol i nifer sylweddol o blant. Byddai gwasanaeth pwrpasol yn galluogi gwasanaethau Cymraeg i gystadlu â sianelau a chyfryngau eraill sy'n rhai pwrpasol i blant a'r rhai a ddewisir ganddynt gyntaf ar hyn o bryd.

Credwn fod yn rhaid delio â'r mater hwn ac na ddylid colli'r cyfle i gyflawni ein dyletswydd i blant. Wrth i faes teledu gamu i oes hollol ddigidol, rhaid i ni sicrhau na fydd plant Cymru yn cael eu gadael ar ôl. Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad ydym yn colli cenhedlaeth o blant, y mae'n amlwg bod ganddynt deimladau angerddol tuag at eu diwylliant, ond y maent hefyd yn rhan o genhedlaeth ehangach sydd â chryn grebwyll am y cyfryngau, ac sydd â disgwyliadau uchel ynghylch pryd a sut y maent yn dymuno manteisio ar y cyfryngau. Os na fyddwn yn llwyddo i ymateb yn ddigonol i'w disgwyliadau, gan wrthod rhoi'r dewis iddynt o fanteisio ar y cyfryngau yn yr iaith Gymraeg, byddwn wedi colli cyfle.

Byddem yn croesawu eich barn ynghylch ein cynigion erbyn **20 Gorffennaf, 2007**. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru er mwyn ystyried eich barn.

Mae Rhan 1 yn rhoi amlinelliad byr o'n cynigion am wasanaeth teledu newydd a'r cwestiynau yr ydym yn holi eich barn amdanynt. Mae Rhan 2 a 3 yn cynnwys gwybodaeth am y cefndir, gyda Rhan 2 yn amlinellu rhywfaint o'n gwaith ymchwil yn fyr a Rhan 3 yn rhoi crynodeb byr o'n pwerau a'n hamcanion strategol.

Edrychwn ymlaen at glywed ac ystyried eich barn.

John Walter Jones
14 Mai, 2007

SUT I YMATEB I YMGYNGHORIAD S4C

Mae tair ffordd o ymateb:

1. Llenwch ein ffurflen ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad
http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation.shtml

2. **Trwy e-bost**
Ar gyfer ymatebion mwy o faint i'r ymgynghoriad a'r rhai sydd â deunydd ategol, a fyddech gystal ag anfon e-bost at alun.thomas@s4c.co.uk gan gynnwys eich ymateb ar ffurf dogfen Microsoft Word, ynghyd â thudalen flaen ar gyfer yr ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf

3. **Yn y post**
Neu, gallwch ymateb trwy ysgrifennu at Mr Alun Thomas, Ysgrifennydd Awdurdod S4C, S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU. A fyddech gystal â chynnwys tudalen flaen ar gyfer ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf gyda'ch ymateb.

RHAN 1

1. Cyflwyniad

Isod, rydym yn nodi'r hyn yr ydym yn ei gynnig i blant ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei gael, ynghyd â rhai o'r dewisiadau yr ydym yn eu gweld ar gyfer y dyfodol. Er mwyn rhoi amcan, rydym yn defnyddio'r term "meithrin" i gyfeirio at y rhai sy'n 5 oed ac yn iau, y term "plant hn " i gyfeirio at y rhai sy'n 5-10 oed, a "phobl ifanc yn eu harddegau" i gyfeirio at y rhai 10-16 oed (termau arwyddol yw'r rhain yn unig wrth gwrs, a cheir rhywfaint o drawsgroesi. Pan fyddwn yn defnyddio'r term "Plant", dylid cymryd hwn i ystyried y rhai sy'n 16 oed ac yn iau).

2. Darpariaeth gyfredol S4C i Blant

2.1 Yr hyn a gynigiwn ar hyn o bryd

2.1.1 Ar hyn o bryd, rydym yn darlledu rhaglenni i Blant ar S4C digidol ac S4C analog a thrwy gyfrwng gwefan S4C ar fandllydan. Ac eithrio'r ddarpariaeth bandllydan, rydym yn darlledu'r canlynol ar hyn o bryd:

- **PLANED PLANT BACH** (Cynnwys ar gyfer plant meithrin yn bennaf)
  Dydd Llun i ddydd Gwener 1230 – 1315 (S4C ac S4C digidol)
  Dydd Llun i ddydd Gwener 1315 - 1330 (S4C digidol)
  Dydd Sadwrn 1400 – 1500

  PLANED PLANT (Cynnwys ar gyfer plant h n yn bennaf)
  Dydd Llun i ddydd Gwener 1600 – 1700 (S4C ac S4C digidol)
  Dydd Llun i ddydd Gwener 1700 – 1800 (S4C digidol)
  Dydd Sadwrn 1500 – 1700

  Yn ystod y gwyliau ysgol, rydym yn darlledu'r canlynol hefyd:

- **PLANED PLANT BACH**
  Dydd Llun i ddydd Gwener 0700 – 0800 (S4C ac S4C digidol)

- **PLANED PLANT**
  Dydd Llun i ddydd Gwener 0800 – 0900 (S4C ac S4C digidol)
  Dydd Llun i ddydd Gwener 0900 – 1000 (S4C digidol)

2.1.2 Yn ogystal, rydym yn ailddarlledu rhai rhaglenni **Planed Plant** yn ystod y slot 1830 a/neu defnyddir 1830 ar gyfer rhaglenni "teuluol" sy'n cynnwys opera sebon i bobl ifanc yn eu harddegau.

2.1.3 Pan fydd y signal teledu analog yng Nghymru yn cael ei ddiffodd, bydd S4C digidol, y sianel a gyflwynir ar y platfformau digidol (h.y. Freeview, Sky, Virgin Media a band llydan), yn cael ei darlledu o hyd ac ni ddarlledir S4C analog (h.y. y sianel analog sy'n cyflwyno rhaglenni Cymraeg gyda rhaglenni Channel 4) mwyach.

2.2 Cynhyrchu rhaglenni gwreiddiol i Blant

2.2.1 Comisiynir ein rhaglenni gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol[1] neu fe'u cyflenwir i ni gan BBC Cymru. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni gwreiddiol yn Gymraeg.

2.2.2 Yn 2005, darlledwyd oriau ychwanegol o ran rhaglenni i Blant o ganlyniad i'n penderfyniad i ddarparu rhagor o raglenni i Blant yn ystod yr "oriau brig". Aethom ati hefyd i ymestyn y ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol, gan gynnig oriau ychwanegol yn ystod cyfnod y Nadolig. Dyblwyd ein gwariant ar raglenni i blant meithrin.

2.2.3 Yn ystod 2006, gwariwyd £9.7 miliwn gennym ar raglenni gwreiddiol, hynny yw, y rhaglenni hynny a gomisiynwyd gan S4C ar gyfer Plant ac a gynhyrchwyd gan gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cart n a gafodd eu prynu a'u dybio i'r iaith Gymraeg gan gwmnïau yng Nghymru. Byddwn yn comisiynu rhagor o raglenni gwreiddiol yn ystod 2007 ac rydym wedi neilltuo cyfanswm o £10.9 miliwn ar gyfer rhaglenni gwreiddiol i Blant yn ystod 2007. Byddwn yn parhau gyda'r gwasanaeth estynedig yn ystod gwyliau ysgol.

2.2.4 Bydd y cyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn cynyddu ymhellach wrth allanoli'r elfen gyflwyno ar gyfer Plant ar draws teledu a'r we o fis Hydref 2007.

2.2.5 Amcangyfrifir y bydd ein gwariant ar raglenni i Blant yn ystod 2007 yn golygu mai ni fydd yr ail brynwr mwyaf o ran rhaglenni gwreiddiol i Blant yn y Deyrnas Unedig.

2.3 Y swm yr ydym yn ei wario ar ddarparu i Blant ar hyn o bryd

2.3.1 Gwariwyd cyfanswm o £10.9 miliwn ar y gwasanaeth i Blant yn 2005. Cyfanswm ein gwariant ar y gwasanaethau i Blant yn 2006 oedd £10.5 miliwn. Yn 2007, rydym wedi neilltuo cyllideb o £11.8 miliwn. Mae'r cyfansymiau hyn yn cynrychioli cost rhaglenni a chostau cysylltiedig eraill (er enghraifft, gweithgareddau marchnata, ail ddarlledu, gwasanaethau'r we ayb).

	2005	**2006**	**2007 (amcangyfrif)**
Cyfanswm y Gwariant ar ddarparu i Blant	£10.9 miliwn	£10.5 miliwn	£11.8 miliwn
Cyfanswm yr Oriau o raglenni i Blant	255	280	284

[1] gan gynnwys ITV Cymru

3. Nodweddion Allweddol ein cynigion

3.1 Cylch Gwaith y Gwasanaeth Cyhoeddus arfaethedig/Gofynion Cyfreithiol ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus newydd

3.1.1 Er mwyn ein galluogi i wario rhywfaint o'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei gael gan y llywodraeth ar hyn o bryd ar Wasanaethau Newydd, mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i'r Gwasanaethau Newydd hynny gael "cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus". Mewn cymhariaeth, nodir y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer S4C digidol yn Atodiad 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

3.1.2 Ein bwriad cyfredol yw gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan i nodi cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y Gwasanaeth Newydd sy'n debyg i'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer S4C digidol, ond y byddai ar gyfer Plant yn bennaf ac yn debyg i'r canlynol:

Gall yr Awdurdod Cymraeg ddarparu'r gwasanaeth(au) canlynol wedi'i anelu (wedi'u hanelu) ar gyfer pobl ifanc yn bennaf, ar ffurf ddigidol, fel y nodir isod:

- *Y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer [enw'r Gwasanaeth(au) Newydd] yw darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel, ar gyfer aelodau'r cyhoedd sydd dan 16 oed yn bennaf, mewn gwasanaeth lle y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg.*

- *Wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw, rhaid i'r Awdurdod Cymraeg sicrhau y bodlonir y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y gwasanaeth.*

(O fewn cyd-destun cyfreithiol, mae "Awdurdod Cymraeg" yn golygu "Awdurdod S4C").

3.2 Manylion y Gwasanaeth Newydd

3.2.1 Rhad ac am ddim i wylio

Bwriadwn i'r Gwasanaeth Newydd gael ei ddarlledu yn rhad ac am ddim er mwyn i'r cyhoedd allu derbyn y sianel yn rhad ac am ddim ar deledu daearol digidol yng Nghymru, a ledled y DU a thu hwnt trwy gyfrwng lloeren ddigidol, cebl, band llydan a'r holl ddulliau darparu priodol eraill.

3.2.2 Gwasanaeth Cydgyfeiriol[2]

Bydd y Gwasanaeth Newydd yn wasanaeth cydgyfeiriol. Mae hyn yn golygu y bydd yn manteisio ar gyfleoedd cyfryngau newydd sy'n rhan mor amlwg o fywydau plant h n a phobl ifanc yn eu harddegau, a bydd ar gael mewn sawl ffurf technegol (ac nid trwy gyfrwng teledu yn unig). Er enghraifft, bydd ganddo ei wefan ei hun a fydd yn darlledu'r cynnwys ar yr un pryd ag y bydd ar y teledu, yn ogystal â darparu cynnwys i'w lawrlwytho. Yn ogystal, byddwn yn darparu'r cynnwys a'r cynnwys cysylltiedig trwy gyfrwng pob ffordd briodol ac yn y ffurf mwyaf priodol.

3.2.3 Oriau y bydd ar gael

Credwn mai'r uchafswm o ran oriau y byddem yn ei gynnig ar gyfer y Gwasanaeth Newydd ar ôl ei ddatblygu'n llawn, fyddai 15 awr y dydd rhwng 0600 a 2100.

[2] Gwasanaeth Cydgyfeiriol = Converged service

3.2.4 **Materion ynghylch yr oriau y bydd ar gael**

Ar y teledu, gallai materion sy'n ymwneud â chyfanswm y gofod darlledu sydd ar gael gennym, gael effaith ar yr oriau y darlledir y Gwasanaeth Newydd. Gallai'r oriau darlledu fod yn gyfyngedig os (gan ystyried y barn a wneir wrth ymateb i'r Ymgynghoriad hwn) byddwn yn parhau i ddarlledu S4C2, y gwasanaeth sy'n darlledu o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ddydd Mawrth i ddydd Iau, rhwng 0900 a 1800, fel sianel nad yw'n wasanaeth cyhoeddus (am ragor o fanylion, gweler paragraff 4 isod).

3.2.5 **Tair cynulleidfa amrywiol**

Gan ein bod yn anelu at dair cynulleidfa amrywiol iawn, credwn y bydd yn rhaid, efallai, rhedeg y Gwasanaeth Newydd ar ddwy sianel wahanol er mwyn ein galluogi i gyrraedd y gynulleidfa darged. Ein nod yw darparu gwasanaethau meithrin, plant h n a phobl yn eu harddegau.

3.2.6 **Patrymau darlledu**

Gan mai rhieni sy'n dewis yr hyn y bydd plant meithrin yn ei wylio ar y cyfan, credwn y bydd plant meithrin yn gwylio rhaglenni ar S4C digidol ac efallai na fydd angen marchnata gwasanaeth yn uniongyrchol ar gyfer y gynulleidfa honno. Fodd bynnag, rhaid i'r ddarpariaeth i blant hn a phobl ifanc yn eu harddegau fod yn sianel sy'n ddeniadol i'r ddau gr p oedran (a allai arwain at ddwy sianel ar wahân). Rhagwelwn, ond rydym yn awyddus i dderbyn eich barn, y patrymau darlledu canlynol:

3.2.6.1 **Plant Meithrin**

Yn ystod yr wythnos, fel arfer, defnyddir bloc y bore a dechrau'r prynhawn ar gyfer rhaglenni i blant meithrin, ynghyd â darpariaeth i blant hn cyn oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Rhagwelir y bydd y bloc meithrin yn cael ei ddarlledu ar S4C digidol hefyd tan tua 1230 a'i ddarlledu ar y Gwasanaeth Newydd rhwng oddeutu 0600 a 1500 am y tro (gyda'r cynnwys ar gyfer y Plant H n yn cael ei ddangos ar yr adeg priodol - bydd y penderfyniad hwn yn ddibynnol ar sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad a gwaith ymchwil pellach ynghylch cymysgu'r ddarpariaeth meithrin gyda'r ddarpariaeth i Blant Hn).

3.2.6.2 **Plant H n**

Bydd y gwasanaeth yn rhoi pwyslais arbennig ar wylio yn ystod y penwythnos i blant h n a phobl yn eu harddegau, gyda'r patrwm gwylio yn newid ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Yn ogystal â'r slotiau bore cynnar, gwyliau ysgol a phenwythnos i blant h n yn ystod yr wythnos, bydd y slot hwyr y prynhawn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni i blant hn yn bennaf, a'i ddarlledu rhwng 1500 a 1830 am y tro.

Er mwyn cyrraedd y gr p targed hwn, rhagwelir y bydd yn rhaid rhestru'r sianel yn adran blant y canllaw rhaglenni electronig, a'i marchnata fel sianel blant. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth cyfryngau newydd yn bwysig i'r grp oedran hwn.

3.2.6.3 **Pobl ifanc yn eu harddegau**

Bydd y gwasanaeth yn rhoi pwyslais arbennig ar wylio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, gyda'r patrwm gwylio yn newid ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Fel arfer, defnyddir y bloc gyda'r hwyr ar gyfer rhaglenni i bobl ifanc yn eu harddegau yn bennaf, a bydd yn cael ei ddarlledu rhwng 1830 a 2100 am y tro. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod y grp oedran hwn yn gr p arbennig o anodd i sianelau traddodiadol S4C ei gyrraedd ond efallai na ddylid cysylltu gwaith marchnata ar gyfer y gr p oedran hwn gyda sianel blant oherwydd efallai na fydd hyn yn addas i'w gofynion. Bydd y cyfryngau

newydd yn arbennig o bwysig er mwyn cyrraedd y gr p oedran hwn. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'n cynigion am wasanaeth teledu yn bennaf, ni fydd y gwasanaeth teledu yn wasanaeth ar ei ben ei hun ac mewn byd cydgyfeiriol, y cyfryngau newydd fydd y ffordd bwysicaf o ddarparu gwasanaethau i'r gr p oedran hwn.

3.3 Ariannu

Nid ydym yn gofyn am arian ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Newydd a bwriadwn ariannu'r gwasanaeth trwy gyfrwng dulliau ariannu sy'n bodoli eisoes. Rydym yn ariannu S4C ac S4C digidol trwy ddefnyddio arian cyhoeddus yr ydym yn ei gael i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Rydym yn ariannu ein cyfraniad i wasanaeth y Cynulliad Cenedlaethol S4C2 trwy ddefnyddio refeniw masnachol.

Nid yw gwasanaeth y Cynulliad ar S4C2 yn sianel gwasanaeth cyhoeddus ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol arnom i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Darparir y gwasanaeth hwn gan is-gwmni masnachol, S4C2 Cyf., dan drwydded gan Ofcom. Y costau i S4C2 o redeg y gwasanaeth hwn yw'r costau trosglwyddo fwy neu lai (h.y. y taliadau i ddarparwyr TDD[3] a lloeren) gan bod y rhaglenni yn cael eu cyflenwi gan y BBC dan fenter ar y cyd.

3.3.1 Cyllideb Flynyddol ar gyfer Rhaglenni

Mewn unrhyw flwyddyn, caiff cyfran o'n cyllideb flynyddol ar gyfer rhaglenni, ei neilltuo mewn enw i raglenni plant, a bydd hyn yn parhau i ddigwydd. Ni fydd gan y Gwasanaeth Newydd ac S4C digidol gyllidebau rhaglenni ar wahân a rhagwelwn y bydd rhaglenni a gomisiynir gan S4C neu sy'n cael eu cyflenwi i S4C gan y BBC yn gallu cael eu darlledu ar y Gwasanaeth Newydd neu ar S4C digidol.

Er mwyn rhoi syniad ar gyfer 2008, bydd Awdurdod S4C yn pennu cyllideb gyda £11.8 miliwn[4] yn cael ei neilltuo mewn enw ar gyfer gwasanaethau i Blant. Gellir addasu hyn bob blwyddyn. Bydd angen sicrhau cymeradwyaeth Awdurdod S4C ar gyfer unrhyw newid sylweddol go iawn neu newid a gynllunnir i'r gwariant, fel rhan o gylch flynyddol cyllidebu blynyddol S4C.

3.3.2 Costau technegol a throsglwyddo

Rhagwelwn y bydd (yn debyg i fodel Cynulliad S4C2 ar hyn o bryd) costau darlledu ail ffrwd 24 x 7 S4C (a fydd yn cynnwys y Gwasanaeth Newydd) yn parhau i gael eu ariannu o'n cronfa arian masnachol (trwy ein is-gwmni masnachol).

3.3.3 Arian Ychwanegol

Bydd £1 miliwn ychwanegol y flwyddyn o refeniw masnachol yn cael ei ddarparu i'r Gwasanaeth(au) Newydd am dair blynedd gyntaf y Gwasanaeth(au) Newydd.

3.3.4 Hysbysebu a Nawdd a refeniw trydydd parti

Ar lansio'r Gwasanaeth Newydd nid yw'n fwriad i gario hysbysebu a nawdd ar fwyafrif helaeth o'r Gwasanaeth Newydd. Fodd bynnag ar hyn o bryd, byddwn yn cadw'r hawl i gynnwys amser darlledu masnachol ac i ennill incwm trydydd parti, a byddwn yn ailystyried potensial manteisio'n llawn ar y gwerth o bryd i'w gilydd. Byddai unrhyw arian a fyddai'n deillio o hysbysebu a nawdd ar y Gwasanaeth(au) Newydd yn mynd tuag at ariannu'r Gwasanaeth Newydd.

---

[3] TDD = Teledu Digidol Daearol

[4] Dyma'r ffigwr ar gyfer 2007.

3.4 **Nodau ac Amcanion**

3.4.1 **Nodweddion**

3.4.1.1 Bydd y rhaglenni ar y Gwasanaeth Newydd yn dangos yr un nodweddion gwasanaeth cyhoeddus â'r rhai a ddangosir yn y rhaglenni ar S4C ac S4C digidol ac sydd wedi'u mynnu gan Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol S4C yn holl weithgareddau S4C.

3.4.1.2 Bydd y gwasanaethau o ansawdd uchel er mwyn adlewyrchu Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol S4C a'r gwerthoedd cynhyrchu uchel a ddisgwylir gan raglenni S4C. Bydd cyfran sylweddol o'r rhaglenni'n rhaglenni gwreiddiol, wedi'u cynhyrchu yng Nghymru ac ni fydd S4C yn ddibynnol ar bryniannau ar gyfer ei Gwasanaeth Newydd.

3.4.1.3 Yn unol â'r cylch gwaith arfaethedig, bydd y Gwasanaeth Newydd yn wasanaeth Cymraeg yn bennaf. Yn yr un modd ag y mae'n gwneud ar gyfer S4C digidol ar hyn o bryd, bydd Awdurdod S4C yn pennu polisi iaith Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth Newydd. Fel gwasanaeth i Blant yng Nghymru yn bennaf, bydd gan y Gwasanaeth(au) y gallu unigryw i ddarparu ymdeimlad o gymuned ac o berthyn i'r gynulleidfa, trwy ddarparu gwasanaeth unigryw a fydd yn integredig ar draws y cyfryngau mwyaf perthnasol ac a fydd yn berthnasol i bob Plentyn yng Nghymru.

3.4.1.4 Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos y bydd yn rhaid i'r cynnwys a'r dull cyflwyno fod yn apelgar, yn ddifyr ac yn arloesol er mwyn dal sylw Plant, a byddwn, gyda'n partneriaid yn y sector cynhyrchu, yn chwilio am ffyrdd o ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd a chyffrous yn barhaus.

3.4.1.5 Bydd ystod eang o raglenni a fydd yn addas i'r grwpiau oedran amrywiol a gofynion amrywiol y gynulleidfa, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol.

3.4.1.6 Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau addysgol i sicrhau ein bod yn ystyried y cwricwlwm cenedlaethol ac yn darparu'r un lefel o ddeunydd difyr ond addysgiadol i Blant ag a ddarparwn i oedolion (er enghraifft, trwy'n rhaglenni dogfen wedi'u haddasu'n arbennig i Blant). Byddwn yn hysbysu plant Cymru am y byd o'u cwmpas trwy gyfrwng adloniant a thrwy raglenni newyddion wedi'u teilwra i'w gofynion ac o'u persbectif unigryw nhw.

3.4.1.7 Bydd yn bwysig ein bod yn cysylltu â Phlant yn Gymraeg yn y ffordd fwyaf briodol. Bydd y gwasanaeth teledu yn un rhan o wasanaeth cydgyfeiriol i Blant a bydd y ddarpariaeth cyfryngau newydd o bwysigrwydd arbennig wrth geisio cyrraedd plant hn /pobl ifanc yn eu harddegau.

3.4.2 **Defnyddio Rhaglenni**

3.4.2.1 **Darlledu Cydamserol**

Bydd cyfran sylweddol o'r rhaglenni ar y Gwasanaethau Newydd yn cael eu darlledu ar S4C digidol hefyd. Mae'n hollbwysig bod darpariaeth i Blant ar y brif sianel sef S4C digidol, gan nad yw'n fwriad lleihau nifer yr oriau o raglenni plant ar S4C digidol (beth bynnag, byddai'r cynigion yn cynyddu'r ddarpariaeth trwy ymestyn yr oriau darlledu ar S4C digidol rhwng 0600 a 1230).

3.4.2.2 **Trawsgroesi**

Bydd y bloc i blant h n/pobl ifanc yn eu harddegau ar y Gwasanaeth Newydd yn cynnwys rhaglenni wedi'u comisiynu ar gyfer y Gwasanaeth Newydd, yn ogystal â rhaglenni eraill a gomisiynwyd ar gyfer S4C digidol fydd yn apelio i'r grp oedran targed. Rhagwelwn trawsgroesi o ran cynnwys rhwng S4C digidol a'r Gwasanaeth Newydd.

3.5 **Mesuriadau Perfformiad ac Ymrwymiadau Statudol**

Bydd perfformiad yn parhau i gael ei fesur ar draws ein holl sianelau gwasanaeth cyhoeddus - gan gynnwys y Gwasanaeth Newydd. Rhagwelwn y bydd ein cwotâu, ein hymrwymiadau statudol a'n haddewidion o ran rhaglenni, yn cael eu gosod a'u mesur ar draws ein holl sianelau gwasanaeth cyhoeddus.

3.6 **Meithrin Talent yn y DU**

Bydd cymhareb y rhaglenni a gomisiynir o'r cwmnïau annibynnol gan S4C ar draws ei holl wasanaethau cyhoeddus yn aros yr un fath â'r hyn a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003. Yn unol â'n hallbwn cyfredol, rhagwelir y bydd o leiaf 80% o allbwn S4C ar draws ei gwasanaethau teledu cyhoeddus yn cael eu comisiynu gan gwmnïau annibynnol (gyda'r gweddill, fel arfer, gan ITV Cymru a'r BBC).

4. Gwasanaeth y Cynulliad S4C2

4.1 Ar hyn o bryd, mae ein cwmni masnachol, S4C2 Cyf., yn darlledu trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ein Sianel "S4C2", sydd ar gael ar deledu lloeren digidol, teledu daearol digidol a theledu cebl digidol. Ariannir y gwasanaeth hwn gan refeniw masnachol. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn darlledu o ddydd Mawrth i ddydd Iau (cynhwysol) rhwng 0900 a 1800 yn ystod tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae S4C yn talu am drosglwyddiad y gwasanaeth hwn ac mae'r BBC yn darparu'r rhaglenni.

4.2 Mae hyn yn golygu ein bod yn rhedeg ein hail sianel gyda gofod darlledu sbâr. Y gofod darlledu sbâr hwn, naill ai o amgylch neu yn ystod yr oriau a ddefnyddir ar gyfer y Cynulliad y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y Gwasanaeth Newydd.

4.3 Rydym wedi nodi 3 phrif opsiwn o ran gofod darlledu.

4.3.1 **Opsiwn 1**

- Byddwn yn parhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod tymor y Cynulliad, o ddydd Mawrth i ddydd Iau rhwng 0900 a 1800.

- Byddwn yn darlledu'r Gwasanaeth Newydd 7 diwrnod yr wythnos. Ni ddarlledir y Gwasanaeth Newydd o ddydd Mawrth i ddydd Iau rhwng 1230 a 1800 yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol. SYLWER Gallwn ddarlledu rhwng 0600 a 1230 oherwydd ein bwriad i fanteisio ar ofod sbâr S4C digidol yn ystod y bore i ddarlledu rhaglenni meithrin.

Ceir anfanteision i wasanaeth bylchog, yn enwedig o ran 1500 – 1800 o ddydd Mawrth i ddydd Iau. Fodd bynnag, gallai'r anfantais o ran rhywfaint o fwlch gael ei wrthbwyso gan y fantais o gadw Gwasanaeth S4C2 o'r Cynulliad.

4.3.2 **Opsiwn 2**

- Rydym yn rhoi'r gorau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol ac yn darlledu Gwasanaeth Newydd di-dor 7 diwrnod yr wythnos.

Er bod mantais i gael sianel lawn i Blant, yr anfantais glir yn y sefyllfa hon yw colli sianel S4C2 sy'n darlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol. Efallai y byddai trydydd partïon yn fodlon darparu cludiant ar gyfer y gwasanaeth hwn.

4.3.3 **Opsiwn 3**

- Rydym yn parhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol fel yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, gan ddarlledu Gwasanaeth Newydd di-dor 7 diwrnod yr wythnos hefyd trwy ddefnyddio gofod ychwanegol a newydd.

Nid ydym o'r farn bod yr opsiwn hon yn bosibl ar hyn o bryd oni bai bod arian a gofod ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Rydym yn holi barn y cyhoedd am yr opsiynau hyn er mwyn gallu barnu'n well pa ddewis fyddai'n darparu'r gwerth gorau i'r cyhoedd.

5. **Darllediadau estynedig o ddigwyddiadau ar S4C2 fel y'u darlledir ar ofod S4C2**

Ar hyn o bryd, rydym yn darlledu rhaglenni ychwanegol o ddigwyddiadau megis yr Eisteddfodau, Sioe Frenhinol Cymru, yn ogystal â digwyddiadau Cymreig arwyddocaol eraill ar ofod sbâr S4C2. Yn unol â'n Strategaeth Raglenni, byddwn yn parhau i ddarparu rhaglenni ychwanegol (trwy'r botwm coch neu ar sianel "S4C2"), o ddigwyddiadau cenedlaethol.

6. **Y rhai a allai gael eu heffeithio gan y cynigion**

Yn Atodiad A, rydym wedi cynnwys rhestr o'r rhanddalwyr allweddol y byddwn yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd weithredol trwy gydol yr ymgynghoriad agored hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Plant.
- Ein cynulleidfa/defnyddwyr a darpar gynulleidfa/defnyddwyr.
- Rhanddalwyr.
- Partneriaid Masnachol – Tridarn.
- BBC.
- Unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth teledu Cymraeg fel gwasanaeth masnachol.
- Unrhyw bartïon eraill a nodir yn ystod y broses ymgynghori.

7. **Risgiau a Opsiynau**

- Manteision ac Anfanteision yr opsiynau ac yn enwedig parthed yr opsiynau i ddarparu'r Cynulliad.
- Yr effaith ar lansiad posibl gwasanaethau eraill gan S4C.
- Yr ymyrraeth bosibl â'r farchnad os bydd partïon masnachol yn dymuno lansio gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant.

8. **Cwestiynau –** cliciwch yma os gwelwch yn dda am restr o gwestiynau. http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf

RHAN 2 - Crynodeb o Waith Ymchwil a Phrif Ganfyddiadau S4C

1. Gwaith Ymchwil S4C

1.1 Mae ein Swyddog Ymchwil Ysgolion yn canolbwyntio ar gasglu barn Plant. Bob blwyddyn er 1997, mae Panel Ysgolion newydd wedi cael ei sefydlu ac ymwelir â chwech ysgol gynradd a chwech ysgol uwchradd yn ystod y flwyddyn i asesu ymateb plant o bob oedran i amrywiaeth o'n gwasanaethau plant. Cynhelir oddeutu pump neu chwech o brosiectau ansoddol yn bennaf bob blwyddyn. Gall y rhain amrywio o archwiliadau manwl o gyfres sy'n dychwelyd at ddibenion datblygu rhaglenni, i asesu effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata. Cynhelir cyfweliadau gyda staff addysgu hefyd ynghylch eu defnydd o raglenni yn y dosbarth.

1.2 Yn ogystal â'r gwaith hwn, sy'n waith ansoddol yn bennaf, mae Ymchwil S4C yn cyhoeddi adroddiad misol ar y ffigurau gwylio ar gyfer rhaglenni plant ac mae'r rhain yn olrhain patrymau gwylio dros gyfnod o amser, gan ystyried perfformiad sianelau eraill yn ogystal â pherfformiad S4C. Gwneir gwaith meintiol ad hoc ar raglenni plant yn ôl yr angen, lle'r ystyrir ystod o fesuriadau – miloedd, Cyfran a Chyrhaeddiad. Nid yw BARB yn mesur gweithgarwch gwylio plant dan 4 oed. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaeth ymchwil omnibws newydd i blant a gychwynnwyd gan Beaufort Research yn ystod 2006. Mae 500 o blant 7-18 oed ar draws Cymru yn cael eu cyfweld wyneb yn wyneb ddwy waith y flwyddyn, a bydd hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni er mwyn olrhain barn dros gyfnod o amser.

2. Siaradwyr Cymraeg

2.1 Mae proffil yr iaith Gymraeg yn newid. Yng Nghyfrifiad 2001, datgelwyd bod 41% o'r plant yng Nghymru sy'n 5-15 oed yn siarad Cymraeg – cynnydd o 15% ar ffigurau 1991. Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran 45+. Yn ddaearyddol, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y Siaradwyr Cymraeg yn Ne Cymru a gwelwyd mai Gorllewin a Gogledd Cymru yw'r ardaloedd lle y ceir y niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg o hyd, ond gwelwyd gostyngiadau yn yr ardaloedd hynny hefyd, gyda'r gostyngiadau mwyaf yng Ngorllewin Cymru. Ar lefel ddemograffig a daearyddol, mae'r iaith Gymraeg yn newid.

2.2 Yn ogystal, mae polisi addysg yn gweld pob disgybl yn cael gwersi Cymraeg nes byddant yn 16 oed.

3. Gwasanaethau teledu

3.1 Cydnabyddir bod teledu yn gyffredinol a'r *genre* plant yn arbennig yn wynebu newid mawr. I'r perwyl hwn, mae Ofcom yn cynnal adolygiad o rôl teledu yng nghyfryngau plant yn y DU ar hyn o bryd ac yn arbennig, y rhagolygon ar gyfer darpariaeth ystod eang o gynnwys gwreiddiol ac o ansawdd uchel i blant yn y dyfodol. Mae ei waith ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o blant bellach yn gallu troi at ddeunaw o sianelau plant pwrpasol ar blatfformau amlsianel a bod patrymau gwylio plant yn symud i'r sianelau arbenigol hynny. Mae hyn wedi arwain at ddirywiad cyflym mewn ffigurau gwylio teledu plant yn gyffredinol dros y dair blynedd ddiwethaf, yn enwedig sianelau daearol. Bydd hefyd yn ystyried y graddau y bydd y model teledu llinol traddodiadol yn cael ei drawsfeddiannu gan dechnolegau newydd a'r materion daearyddol sy'n ymwneud â rhaglenni plant a rôl rhaglenni plant gwasanaeth cyhoeddus wrth adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol y gwahanol genhedloedd a rhanbarthau yn y DU. Gellir gweld manylion pellach am yr ymgynghoriad hwn trwy droi at wefan Ofcom. Disgwylir ei adroddiad yn ystod Haf 2007 a byddwn yn ystyried ei ganfyddiadau'n llawn yn ystod ein proses gynllunio a phenderfynu.

3.2 Mae adroddiad blynyddol Ofcom ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn amlygu'r ffaith bod plant yn gwylio bron un rhan o ddeg yn llai er 2002. Mae allbwn S4C i blant wedi cynyddu er 2002, tra bod yr oriau cyfartalog o ran allbwn i blant ar y sianelau gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng 11%. Bu cynnydd yng nghyfran y ffigurau gwylio gan blant o allbwn amlsianel *genre* Plant, o 56% o gyfanswm yr oriau wythnosol a wyliwyd yn 2002, i 82% yn 2006. Gwelwyd gostyngiad cyferbyniol yn y ffigurau gwylio ar gyfer sianelau gwasanaeth cyhoeddus daearol o 47 awr y plentyn y flwyddyn yn 2002, i 30 awr y flwyddyn yn 2006.

4. Patrymau gwylio Plant ar S4C

4.1 O ran patrymau gwylio, mae plant 4-9 oed yn gwylio teledu yn ystod y slotiau amser 0700 i 0900 a rhwng 1515 a 2000, gyda'r ffigurau gwylio yn gostwng ar ôl 2000. Mae plant 10-15 oed yn gwylio yn ystod y bore hefyd, ond ar lefel is, ac mae eu patrwm gwylio nhw yn dechrau am 1515 hefyd, gan gynyddu'n raddol tan 1800, cyn gostwng ychydig eto a chodi eto tan 2100, cyn gostwng yn raddol eto. Mae'r ffigurau gwylio ymhlith Plant yn uchel yn ystod y penwythnos – ond ar hyn o bryd, mae'r allbwn i blant ar S4C Digidol ar benwythnosau yn gyfyngedig, ac yn cael ei ddisodli gan ddigwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau diwylliannol yn ôl yr angen.

4.2 Erbyn hyn, mae 92% o'r plant yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg, yn byw mewn cartrefi sydd â theledu Digidol. Nid yw patrymau gwylio plant sy'n siarad Cymraeg o'r llu o sianelau plant yn wahanol iawn i batrymau gwylio plant di-Gymraeg, ond gwelir gwahaniaeth ym mhatrwm gwylio plant ar sianelau nad ydynt yn sianelau teledu daearol, o'i gymharu â'r sefyllfa ymhlith oedolion. 38% oedd cyfran yr amser yr oedd oedolion yn gwylio teledu heb fod yn deledu daearol yng Nghymru yn ystod 2006, tra bod y gyfran hon yn neidio i 58% ymhlith plant – felly, mae bron i 60% o holl weithgarwch gwylio plant yn cael ei wneud ar sianelau nad ydynt yn sianelau daearol. Ymhlith siaradwyr Cymraeg, y ffigurau yw 32% ar gyfer oedolion a 60% ar gyfer plant. *(Cyfran Holl Oriau, Data BARB, Panel S4C).*

4.3 Mae ymchwil yn dangos bod problem bosibl y mae angen delio â hi o ystyried y ffaith mai dim ond 21% yw Cyrhaeddiad wythnosol plant sy'n siarad Cymraeg i oriau Cymraeg S4C, o'i gymharu â 41% ymhlith yr holl siaradwyr Cymraeg. Bydd denu plant i sianel S4C yn ifanc yn cael effaith gadarnhaol ar eu tueddiad i wylio prif sianel S4C yn y tymor hir, gan sicrhau ei bod yn rhan hanfodol o'u *repertoire* gwylio eang.

5. Barn Plant

5.1 Er mwyn canfod barn Plant am S4C, sefydlwyd Panel Plant er mis Medi 1997, mewn ysgolion ledled Cymru lle y gwneir yr addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2.1 Mae prosiectau rheolaidd am **Planed Plant** a rhai cyfresi penodol yn dangos ei bod yn gallu bod yn anodd i **Planed Plant** apelio i'r ystod oedran llawn o blant rhwng 6 ac 13 oed, a'i fod yn tueddu i apelio i'r rhai 6 i 10 oed neu 11 oed i raddau helaeth. Y tueddiad yw i'r 11 oed a h n feddu ar wahanol anghenion.

5.2.2 Ar draws yr ystod oedran o 8-13 oed, cafwyd ceisiadau i **Planed Plant** fod ar gael am gyfnod hwy ac am sianel bwrpasol iddyn nhw. Maent yn gweld bod sianelau eraill yn dangos rhaglenni plant trwy gydol y dydd, a byddent yn dymuno gweld yr un ddarpariaeth yn y Gymraeg.

5.2.3 Yn ddelfrydol, byddai pob grp oedran yn gwerthfawrogi rhaglenni wedi'u targedu'n benodol iddyn nhw. Ar hyn o bryd, mae'r rhai 11 oed a h n yn teimlo na chânt eu gwasanaethu ddigon gan S4C ac nid ydynt yn dymuno cael eu cysylltu â'r gwyliwr iau, felly ni ddylai rhaglenni geisio croesi o un 'gr p oedran' i'r llall. Os ydym am rannu'r gwasanaeth ar draws y grwpiau oedran, dylid rhoi arwyddion eglur ynghylch yr hyn sy'n cael ei anelu at bwy. Nododd un prosiect ymchwil y byddai modd rhannu un gwasanaeth os byddai'r 'adrannau' amrywiol yn cael eu labelu'n eglur – gan frandio gwahanol rannau o'r amserlen yn unigol yn unol ag oedran perthnasol y gwyliwr.

6. Casgliad

Mae'r ymchwil yn dangos nad yw S4C bob amser yn ddewis naturiol i nifer sylweddol o blant sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai gwasanaeth pwrpasol yn galluogi gwasanaethau Cymraeg i ymateb i newidiadau mewn arferion gwylio cyffredinol ac i gystadlu â sianelau eraill sy'n sianelau penodol i blant.

RHAN 3 - Pwerau a Pholisi S4C o ran Gwasanaeth(au) Newydd i Blant

1. Pwerau Awdurdod S4C a Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol S4C

1.1 Mae gan Awdurdod S4C y grym i ddarparu sianel gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol (yn ogystal ag S4C ac S4C digidol) ar yr amod bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cymeradwyo darpariaeth y gwasanaeth hwnnw Orchymyn yn unol ag a205 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

1.2 Mae Gorchymyn a205 yn pennu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus i'r gwasanaeth hwnnw ac yn rhoi'r grym i Awdurdod S4C wario arian y mae'n ei gael ar ffurf cymorth grant, ar y gwasanaeth hwnnw. Yn Atodiad 1, rydym yn nodi darpariaethau'r adran honno.

2. Cynnig i Lansio Gwasanaeth(au) Newydd i Blant

2.1 Mae gofod daearol digidol wedi cael ei neilltuo i S4C er mwyn lansio gwasanaethau digidol ychwanegol, unigryw ac o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim yn y Gymraeg ac mae fframwaith Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn hyrwyddo'r polisi hwn ymhellach. Ar hyn o bryd, mae gan S4C yr hawl i ddefnyddio gofod ar deledu daearol digidol a lloeren digidol i alluogi darlledu gwasanaeth pellach.

2.2 Yn dilyn gwaith ymchwil helaeth ac yng ngoleuni'r tirlun cyfryngau sy'n newid, mae Awdurdod S4C yn dymuno ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddalwyr ynghylch ei gynigion i lansio gwasanaeth teledu newydd (a gwasanaethau addas ac atodol) i Blant. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos y bydd gwasanaeth o'r fath yn cynnal ac yn cryfhau ansawdd darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Gymraeg, gan sicrhau bod cyfanswm ac ystod addas o raglenni gwreiddiol, o ansawdd uchel, ar gael i Blant yn y Gymraeg, ac na fyddent yn cael eu darparu gan y sector masnachol.

3. Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol

Mae Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004 S4C yn nodi bod:

Fel darlledwr cyhoeddus, ac yn enwedig oherwydd ein cyfrifoldebau iaith Gymraeg, mae llunio strategaeth briodol ar gyfer plant Cymru yn gwbl allweddol. Anelwn at sicrhau fod ein strategaeth yn atgyfnerthu gwaith sefydliadau eraill. Rydym am roi amlygrwydd newydd i blant drwy sefydlu gwasanaeth digidol tair awr di-dor rhwng 4 o'r gloch a 7 o'r gloch o ddydd Llun tan ddydd Gwener gydol y flwyddyn. Bydd pwyslais arbennig ar ddarparu i oed meithrin hyd at 5 o'r gloch a darpariaeth fwy aeddfed ei naws wedi hynny. Bydd nifer o ffynonellau cynnwys. Bydd ail gyfle i weld yr arlwy ar amserau eraill ar ddigidol, tra ar analog bydd argaeledd y rhaglenni yn ddarostyngedig i ystyriaethau masnachol. Byddwn yn cyflwyno mwy o raglenni ffeithiol i blant, yn bennaf drwy greu fersiynau addas o gyfresi a gomisiynir ar gyfer yr oriau craidd. Bydd S4C yn asesu gwerth cyd-gynyrchiadau yn rhannol ar sail eu haddasrwydd i'w fersiynu ar gyfer plant. Rydym am sicrhau nad yw'r amlygrwydd a roddir i blant yn ystod yr oriau uchod yn eu harwain i gredu nad yw S4C yn berthnasol ar unrhyw adeg arall o'r dydd. Byddwn yn ceisio adnabod rhaglenni neu gyfresi unigol sydd ag apêl i'r teulu cyfan er mwyn adeiladu pont rhwng y gwasanaeth i blant a'r oriau craidd.

*Mae adolygiad llawn o **Planed Plant** a chynllun gweithredu i'w gwblhau cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd natur yr amserlen, y patrwm o ran darllediadau cyfresi amrywiol, y dull cyflwyno a'r brand ei hun yn cael ei newid.*

4. **Yng Nghynllun Corfforaethol 2005 S4C, nodwyd:**

"Ail-lansio'r gwasanaeth i blant a chwblau adolygiad ymarferoldeb 'Sianel i Blant' yn ystod y flwyddyn".

5. **Roedd Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C yn 2005 yn nodi:**

"*Mae S4C bellach yn darlledu rhaglenni plant yn ystod pob un o'r gwyliau ysgol, a threfnwyd bod darpariaeth estynedig ar gael dros y Nadolig am y tro cyntaf yn 2005.*

Parhaodd rhaglenni meithrin i fod yn rhan bwysig o'n hallbwn i blant. Dyblwyd ein buddsoddiad ar gyfer y grp oedran hwn i oddeutu £2m..."

6. **Nododd Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2006 S4C:**

"Rydym yn parhau i roi amlygrwydd i blant trwy'n darpariaeth yn ystod y gwyliau ac mae'r cynllunio ar gyfer gwasanaeth newydd yn parhau. Rydym yn ymrwymo i ddarlledu lleiafswm o 140 awr o raglenni gwreiddiol i blant."

7. **Mae Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2007 yn nodi:**

"Byddwn yn ad-drefnu ein holl ymwneud â phlant yn dilyn penodiad Pennaeth Gwasanaethau Plant, gyda'r amcan o gynyddu gwerth ac addasu natur y ddarpariaeth yn unol ag anghenion y gynulleidfa. O'i wireddu bydd y ddarpariaeth ar ei newydd wedd yn newid sylweddol i'r sefyllfa gyfredol.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ehangu ein darpariaeth i blant wrth ganolbwyntio'nbenodol yn 2007 ar y gynulleidfa rhwng 10 a 15 oed."

ATODIAD A – Rhanddalwyr Allweddol

Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
ACau
ASau (Pwyllgor Diwylliant; Gweinidog Plant; ASau o Gymru)
Arglwyddi
Ofcom
PACT/TAC
Sector Cynhyrchu
BBC Cymru
ITV Cymru

Acen
Awdurdodau Addysg Lleol
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Comisiynydd Plant Cymru
Cylch yr Iaith
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas yr Iaith
Cynghorwyr iaith
Cyngor Llyfrau Cymru
Darparwyr gwasanaeth trosglwyddo a darparwyr technegol eraill
Digital UK
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Estyn
Fforwm Cyfryngau San Steffan
IWA – Sefydliad Materion Cymreig
Merched y Wawr
Mudiad y Ffermwyr Ifanc
Mudiad Ysgolion Meithrin
Partneriaid masnachol perthnasol
Plant yng Nghymru
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Sefydliad Bevan
Twf
Undebau Athrawon
Urdd Gobaith Cymru
Voice of the Listener & Viewer
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

a Grwpiau Plant, Rhieni eraill ac ati

ATODIAD B – HOLIADUR A DIGWYDDIADAU

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu ystyried ein cwestiynau a'u hateb. Byddwn yn falch o gael eich sylwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Y dyddiad cau ar gyfer anfon eich ymateb yw **20 Gorffennaf 2007**.

Cwestiynau

Byddwn yn croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol:

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch barn am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

3. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

6. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Sut i ymateb i Ymgynghoriad S4C

Mae tair ffordd o ymateb:

1. Llenwch ein ffurflen ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant

2. **Trwy e-bost**

   Ar gyfer ymatebion mwy o faint i'r ymgynghoriad a'r rhai sydd â deunydd ategol, a fyddech gystal ag anfon e-bost at alun.thomas@s4c.co.uk gan gynnwys eich ymateb ar ffurf dogfen Microsoft Word, ynghyd â thudalen flaen ar gyfer yr ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf

3. **Yn y post**
   Neu, gallwch ymateb trwy ysgrifennu at Mr Alun Thomas, Ysgrifennydd Awdurdod S4C, S4C, Parc T ŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU. A fyddech gystal â chynnwys tudalen flaen ar gyfer ymgynghoriad http://www.s4c.co.uk/plant/c_consultation-cover-sheet.pdf gyda'ch ymateb.

Digwyddiadau Cyhoeddus

Bydd Awdurdod S4C yn cynnal rhai digwyddiadau cyhoeddus i drafod yr ymgynghoriad. A fyddech gystal â throi at wefan S4C [www.s4c.co.uk] a'r wasg leol am fanylion.

Hygyrchedd

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae modd troi at gopi mewn print mawr ar-lein http://www.s4c.co.uk/plant neu gellir darparu copi o'r fath. O gael cais, byddwn yn trefnu bod copi *braille* o'r ymgynghoriad yn cael ei ddarparu.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae S4C yn rhwym i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000. Os bydd unrhyw ymatebydd o'r farn bod unrhyw wybodaeth a gyflwynir i S4C yn unol â'r gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylid amlygu hyn, gan nodi'r rhesymau dros ei sensitifrwydd yn yr ymateb llawn. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a ddylai ryddhau'r wybodaeth wrth ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn derbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddi wneud hynny er mwyn cydymffurfio â Deddf RhG.

Diogelu Data

Mae ymatebwyr yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparir fel rhan o'u hymateb gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, cyhoeddi gwybodaeth o'r fath a/neu ei darparu i drydydd partïon a chadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol i alluogi S4C i wneud hynny.